

05/05/2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Gweithdrefnau Covid19 yn yr ysgol

Yn dilyn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn gynharach yr wythnos hon, roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y ffordd y byddwn yn gweithio am weddill y tymor, ac i dynnu sylw at rai newidiadau yn eu canllawiau a fydd yn effeithio ar bob un ohonom.

1. Gorchuddion wyneb:

Fel y maent wedi bod ers dechrau'r tymor hwn, mae gorchuddion wyneb bellach yn ddewisol yn yr ysgol ac ar gludiant ysgol. Er bod y Coronafeirws yn dal i fod yn gyffredin yn ein cymuned, mae hwn yn fater o ddewis personol, a bydd myfyrwyr yn cael ein cefnogaeth lawn p'un a ydynt yn dewis gwisgo gorchudd wyneb ai peidio.

2. Os oes gan eich plentyn symptomau Covid19:

Os oes gan eich plentyn dymheredd uchel, peswch parhaus neu golled neu newid mewn blas neu arogl, a fydddech cystal â'u cadw allan o'r ysgol a threfnu iddynt gwblhau prawf llif unffordd. Byddwn yn parhau i wirio am y symptomau hyn yn yr ysgol am y tro, ac yn gofyn i chi gasglu eich plentyn os yw'n arddangos unrhyw un ohonynt.

3. Gwneud profiion Llif Unffordd:

Nid yw bellach yn ofynnol i staff a myfyrwyr wneud profion llif unffordd, asymptomatig, rheolaidd. Fodd bynnag, os oes gennych symptomau'r feirws dylech ddefnyddio'r profion hyn i nodi a yw gennych chi ai peidio. Dylech hefyd barhau i adrodd ar ganlyniadau profion gan ddefnyddio'r ddolen hon : [Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/covid-19-rapid-lateral-flow-test-result). Mae'r holl fanylion sydd eu hangen arnoch ynglŷn ag archebu a defnyddio'r profion hyn ar gael ar ein gwefan yma: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/en_gb/covid-19-lft-testing/

4. Ynysu ar gyfer achosion C19 positif:

Os bydd unrhyw fyfyrwr neu aelod o staff yn profi'n positif am y firws, dylent hunan-ynysu. Mae'r cyfnod ynysu yn parhau i fod yn 10 diwrnod, ond os yw'ch plentyn yn cofnodi profion llif unffordd negyddol ar **ddiwrnod 5 a diwrnod 6** o'r cyfnod ynysu, efallai y bydd yn gorffen ynysu yn gynnar ar **ddiwrnod 6** (a dychwelyd i'r ysgol). Os na, dylent barhau i gymryd profion nes eu bod yn derbyn dau brawf negyddol yn olynol.

Hunan-ynysu ymgeiswyr TGAU, UG a Safon Uwch:

Os yw eich plentyn yn sefyll arholiadau yr haf hwn ac yn profi'n positif, mae'r amser y mae angen iddynt hunan-ynysu wedi cael ei leihau o dan rai amgylchiadau er mwyn lleihau'r amhariad y gallai ei achosi. Mae'r cyfnod ynysu yn parhau i fod yn 10 diwrnod, ond os bydd unrhyw fyfyrwr sy'n sefyll arholiadau yn cofnodi profion llif unffordd negyddol ar **ddiwrnod 3 a diwrnod 4** o'r cyfnod ynysu, gallant orffen ynysu yn gynnar ar **ddiwrnod 4** (a dychwelyd i'r ysgol). Os na, dylent barhau i brofi nes eu bod yn derbyn dau brawf negyddol yn olynol.

5. Cysylltiadau cartref:

Y tymor hwn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rydym yn awgrymu bod staff a myfyrwyr sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag aelodau o'r teulu sy'n profi'n bositif yn cwblhau prawf llif unffordd dyddiol am gyfnod o 7 diwrnod. Cyn belled â bod y profion hyn yn parhau i fod yn negyddol, gall eich plentyn barhau i fynychu'r ysgol.

Rwy'n gobeithio bod hwn yn rhoi crynodeb defnyddiol o sut y byddwn yn gweithredu'r tymor hwn – os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch ar bob cyfrif cysylltwch â ni neu gallwch gael mynediad i ganllawiau'r llywodraeth yma : <https://gov.wales/self-isolation>.

Yn olaf, gan ei bod yn ymddangos ein bod yn cyrraedd diwedd y cyfyngiadau yn yr ysgol, a gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am yr holl gymorth a chefnogaeth yr ydych wedi'i roi i'r ysgol, ac wrth gwrs eich plant, dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae hwn wedi bod yn gyfnod heriol iawn i ni i gyd ond mae'r gwydnwch a'r positifrwydd a ddangoswyd gan ein myfyrwyr drwy gydol y cyfnod wedi gwneud argraff fawr arnaf. Edrychwn ymlaen at barhau i ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd, a gallu cynnig yr holl weithgareddau, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth y gwnaethant eu mwynhau cyn y pandemig byd-eang.

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard

Pennaeth.

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE